**CYNGOR CYMUNED**
**LLANFAIR YN NEUBWLL**

**COMMUNITY COUNCIL**

---

# Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - Nos Fawrth, 29ain o Fehefin 2016

**Presennol:** Cyng. Gwilym O. Jones (Cadeirydd)
Cyng. Gordon Owen
Cyng. Einir Thomas
Cyng. Dyfed Williams

**Ymddiheuriadau:** Cyng. Gwynfor Lloyd Jones
Cyng. Beryl Salisbury

**Cyfarfod wedi ei aildrefnu o 21 Mehefin 2016**

**2. Datganiad o ddiddordeb - dim**

**3. Cofnodion cyfarfod 17eg Fai 2016 -** Derbyniwyd fod y cofnodion yn gywir - (Cynnig Cyng. Dyfed Williams, eilio Cyng. Gordon Owen.)

**4. Materion yn codi o'r cofnodion**

1. Meinciau Benches - 'roedd gwaith wedi dechrau ar feinciau'r cae chwarae a chytunwyd i wneud gwaith ar y rhai a leolir wrth Yr Hen Ysgol, Stad Treifan a'r Neuadd.

2 Cae chwarae - cytunwyd y byddai'r clerc yn gofyn G. L. Jones Playgrounds Ltd i archwilio'r offer chwarae.

3. Ffens wrth Menai Handy Foods - cytunwyd y byddai'r clerc yn gofyn i'r Cyngor Sir am y wybodaeth ddiweddaraf am hyn.

4. Unrhyw fater arall yn codi o'r cofnodion - dim.

**5. Deddf Gynllunio Gwlad a Thref**

Penderfyniadau Cynllunio

32C123A - Bryn Ednyfed, Caergeiliog - cais llawn ar gyfer codi sied amaethyddol - wedi ei ganiatau

**6. Gohebiaeth Cyngor Sir Ynys Môn**

1. Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith - nodwyd

2 Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned - cyfarfod yn Siambr y Cyngor, Llangefni ar 21.7.2016 - nodwyd

3 Safleoedd dros dro ar gyfer Sipsiwn - Cytunwyd y byddai'r clerc yn ymateb i ddweud fod y Cyngor Cymuned yn gwrthwynebu i safle wrth Cymunod

oherwydd yr effaith debygol ar bentref Bryngwran ac ar fusnesau lleol, sef Humphreys Recycling and RG Hire demolition. Gallai lleoli'r safle ger busnesau o’r fath gynyddu'r risg o dresmasu a chreu goblygiadau difrifol ar iechyd a diogelwch a yswiriant iddynt.

4. Cod ymddygiad ar gyfer aelodau etholedig - nodwyd ei bod yn ofynnol i'r Cyngor anfon copi o'r cofnodion yn cadarnhau mabwysiadu'r Cod fel y'i diwygiwyd o dan y Gorchymyn Diwygio at Gadeirydd y Pwyllgor Safonau’r Cyngor Sir.

5. Gwasanaeth Sul y Cadeirydd - cadarnhaodd Cyng. Gwilym O. Jones ei fod yn mynd i hwn.

**7. Materion Ariannol**

**Yn y banc ar 16.6. 2016 Cyfrif Cyfredol £6226.86, Cyfrif Cadw £3919.96**

<u>Taliadau i’w gwneud</u>

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyflog y clerc (Mai) | £176.35 | HMRC (TWE Mai) | £44.09 |
| William Evans & Sons | £150.00 | | |

**Cytunwyd i dalu'r rhain (Cynnig Cyng. Einir Thomas, eilio Cyng. Gordon Owen.)**

**8. Cyfrifon 2015/2016 -** Cadarnhaodd y clerc bod y rhain wedi cael eu harchwilio gan yr Archwilydd Mewnol a'i fod wedi eu cymeradwyo heb ddim i'w adrodd. Derbyniodd y Cyngor y cyfrifon a chytunwyd y dylai'r Ffurflen a'r holl ddogfennau cysylltiedig gael eu llofnodi fel rhai cywir cyn eu rhyddhau i'r Archwilydd Allanol.

**9. Gohebiaeth Eraill - fe nodwyd y canlynol:**

1. Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth.

2. Ymarfer Monitro Blynyddol ar y Cod Ymarfer Diwygiedig ar Faterion y Gweithlu

3. Adroddiad Blynyddol - Archwilio Cyhoeddus yng Nghymru

4. Gwasanaeth Flynyddol Eglwys Santes Fair - 30ain o Orffennaf 2016 am 2 o’r gloch.

**10. Unrhyw fater arall - dim**

**11. Cyfarfod nesaf 19eg o Orffennaf 2016**